Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 14eg Mai 2018 ar ol y Cyfarfod Blynyddol

Presennol:Gadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Wendy Whitby, Dylan Jarman, Eleri Puw, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Datgan Diddordeb: .
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. A chroeso arbennig i'r Cynghorwyr newydd Dylan Rhys Jarman a llofnododd Datganiad Derbyn Swydd.

1. Derbyniwyd cofnodion Ebrill a llofnodwyd gan y Cadeirydd Elwyn Evans
2. Cae Chwarae: Popeth yn iawn. Pasiwyd i dalu i Sean's Lawns am mis Ebrill / Mai. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Cyng S Lewis am y lle i'r Ras Hwyaid.
3. Mynwentydd: Trafodwyd costau y fynwent a phasiwyd i'r costau fod yr un fath a Chyngor Gwynedd, y claddu fyny at deunaw oed i fod am ddim. Os bydd person lleol yn gorfod mynd i Gartref tu allan y ffin, bydd trafod costau trwy cydsyniad Cyngor Llanfihangel y Pennant. 2. Wal y Llan- trafodwyd i gael pris gan Goronwy Williams a Kevin Jones. Nodwyd bod eisiau rhoi chwyn laddwr ar stepiau mynwent y Fedw. Pasiwyd i dalu Sean's Lawns.
4. Llwybrau: Adroddodd y Clerc bod Liz Haynes a Sion Wilkes yn trafod rhan o'r ffordd gwaith ac yna yn gwahodd y Cyngor i gael cyfarfod safle.
5. Cyng. Beth Lawton: Yr oedd wedi cael cwyn ynglyn a ysbwriel ail gylchu. Mi oedd wedi bod yn y Cyfarfod Blynyddol Ysbyty Tywyn.
6. Ciosg: Dim
7. Rheoli Data : Trafodwyd ac yr oedd yn anodd iawn dilyn y drefn, pasiwyd i edrych fewn i'r manylion ar ol i'r Cadeirydd fod yn y Cynhadledd 16/5/18 a chael pwyllgor bach i'w drafod.
8. Parc Cenedlaethol Eryri: Planwyd y coed a dderbyniwyd gan aelod o'r Parc ar dir Rheilffordd Talyllyn yn ymyl yr offer Chwarae.
9. Carnifal Abergynolwyn: Derbyniwyd gwahoddiad i redeg y Tombola prynhawn Mawrth 31/7/18. Pasiwyd i wneud hyn er budd Y Ganolfan..
10. Bin Sbwriel ci: Derbyniwyd ateb yn ol gan Gwynedd, mae cyfrifoldeb y Gwesty oedd gofalu am bin.
11. Marisa Ohara: Dymuniad Marisa drwy lythyr oedd cael prynnu "silhouette" mainc er cof am ei Ewyrth a fu farw yn y rhyfel. Trafodwyd a phasiwyd i dderbyn y cynnig ond ei bod yn cymeryd cyfrifoldeb amdano.
12. Derbyniwyd gair o ddiolch gan yr R.A.B.I.
13. Cyngor Gwynedd: Pasiwyd i dalu £2,000.00 am gadw'r toiledau ar agor am yr Haf.
14. Gwbobr Pentrefi Gwynedd: Pasiwyd I edrych fewn i hyn at 2019
15. Trafodwyd y Grwp Focws – y rhai a alla fynd i fynd. Wi-Fi am ddim – Teimlwyd nad oedd yn ddebygol o ddod yma. "Independent Review Panel" pasiwyd nad oedd digon o amser i baratoi.
16. Map Llanfihangel y Pennant: Pasiwyd i fynd am un y gôst yn £18.
17. Cyngor Gwynedd: Nodwyd bod cwyn am gerrig ochr chwith ffordd ger Maesypandy., goleuadau Bronygader heb gael sylw, ciosg y patch wedi diflannu,Groesffordd Penmeini – agor ochr ffordd.
18. Arwydd top y Bwlch A487, tri yn un wedi ei sortio.
19. Diolch i Cyngor Gwynedd am glirio Staer Dywyll, tynnu sylw pryder sylfaen bont pren yn croesi afon o Dol Idris i Llyn Mwyngil.
20. Taliadau:

Sean's Lawns	mynwent/cae	£252.00	siec 934
Cyngor Gwynedd	toiledau	2000.00	935

Cyfarfod nesaf – Cyffredin 11eg Mehefin 2018 am 7o'r gloch

Cartref Mari Jones:

1. Derbyniwyd £10.00 drwy law Cyng Evans. Diolch iddo.

Cyfarfod i ben 9.30